OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2916 (Cy.255) (C.120)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Dŵr 2003 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 9 Tachwedd 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 105(3) a (6) o Ddeddf Dŵr 2003(**1**) ("y Ddeddf"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Dŵr 2003 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Y Diwrnod Penodedig

2. 11 Tachwedd 2004 yw'r diwrnod penodedig y daw darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym—

(a) adran 77 (cynlluniau llifogydd: cyforgronfeydd dŵr mawr);

(b) adran 78 (diogelwch y wlad);

(c) adran 80 (cymhwysiad i'r Goron);

(ch) adran 81 (dyletswydd i annog arbed dŵr);

(d) adran 86(2)(f), ac is-adran (1) i'r graddau y mae'n berthnasol i'r paragraff hwnnw (tir halogedig: llygru dyfroedd a reolir);

(dd) adran 101(1), i'r graddau y mae'n berthnasol i'r diwygiad a wneir gan baragraff 38 o Atodlen 7; ac

(e) adran 101(2), i'r graddau y mae'n berthnasol i adrannau 147 i 149 ac adran 222(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**2**) ac adran 101(1) o Ddeddf Amgylchedd 1995(**3**) a bennir yn Atodlen 9.

(**1**) 2003 p.37. Gweler y tabl yn adran 105(6) i gael ystyr "*the appropriate authority*" mewn perthynas â chychwyniad adrannau 77, 78, 80, 81, 86 a 101 o'r Ddeddf, ac Atodlen 9 iddi.
(**2**) 1991 p.57.
(**3**) 1995 p.25.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

D. Elis-Thomas
9 Tachwedd 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â rhai o ddarpariaethau Deddf Dŵr 2003 i rym yng Nghymru ar 11 Tachwedd 2004, sef adrannau 77, 78, 80, 81 ac 86(2)(f) (ac adran 86(1) i'r graddau y mae'n berthnasol i'r paragraff hwnnw).

Mae adrannau 77, 78 ac 80 yn diwygio Deddf Cronfeydd Dŵr 1975(**5**) ("Deddf 1975").

Mae adran 77 yn mewnosod adran 12A newydd yn Neddf 1975, sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (i'w ddehongli fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru) i'w gwneud yn ofynnol i ymgymerwyr baratoi cynlluniau yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd pe bai cyforgronfeydd dŵr mawr yn gorlifo.

Mae adran 78 yn mewnosod adrannau 2(2A) a 12B newydd yn Neddf 1975, sy'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar sail diogelwch y wlad, gyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd i beidio â chynnwys gwybodaeth benodol mewn cofrestrau a gedwir o dan Ddeddf 1975; i beidio ag ymgynghori â phersonau wrth baratoi'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn adran 12A o Ddeddf 1975; ac i beidio â chyhoeddi'r fath gynlluniau.

Mae adran 80 yn mewnosod adran 27A newydd yn Neddf 1975, sy'n cymhwyso darpariaethau Deddf 1975 i'r Goron.

Mae adran 81 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd camau i annog arbed dŵr, ac yn ei alluogi i wneud Gorchymyn a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo baratoi adroddiadau ar y fath gamau.

Mae adran 86 yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**6**) fel y mae'n ymwneud â thir halogedig a llygru dyfroedd a reolir. Mae adran 86(2)(f) yn egluro'r diffiniad o ddyfroedd a reolir yn adran 78A(9)(a) o'r Ddeddf honno.

Mae adran 101(1) a (2) yn cychwyn yn rhannol Atodlen 7 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) ac Atodlen 9 (diddymiadau a dirymiadau).

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Daeth darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn Nhabl 1 isod i rym yng Nghymru ac yn Lloegr drwy Orchymynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn —

TABL 1

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 6(1) (yn rhannol)	1 Ebrill 2004	2004/641
Adran 9	1 Ebrill 2004	2004/641
Adran 10(11)	1 Ebrill 2004	2004/641
Adran 15	1 Ebrill 2004	2004/641

(**5**) 1975 p.23.
(**6**) 1990 p.43.